Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Y Gwir Anrhydeddus Steve Barclay AS

Prif Ysgrifennydd y Trysorlys

8 Ionawr 2021

Annwyl Brif Ysgrifennydd y Trysorlys

**Ymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a gweithredu'r Fframwaith Cyllidol; ac Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant**

Ysgrifennais atoch ar 23 Medi 2020 i fynegi gofid y Pwyllgor eich bod wedi gwrthod ein gwahoddiad i roi tystiolaeth i'n hymchwiliad i weithredu Deddf Cymru 2014 a'r Fframwaith Cyllidol.

Er bod y Pwyllgor yn deall y pwysau amser ar Lywodraeth y DU yr hydref diwethaf, o ystyried y digwyddiad cyllidol ar y pryd, mae ein hymchwiliad ninnau hefyd yn gritigol o ran amser i sicrhau ein bod yn adrodd ac yn trafod y mater cyn i'r Senedd gael ei diddymu. Mae'n siomedig iawn eich bod wedi gwrthod ein gwahoddiad wedyn i chi ddod i gyfarfod ym mis Chwefror /Mawrth 2021. Er y byddai'r sesiwn hon wedi digwydd ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad, byddai wedi ein galluogi i ystyried eich tystiolaeth mewn dadl yn y Cyfarfod Llawn.y

Roedd Deddf Cymru 2014 yn ddarn hanfodol o ddeddfwriaeth yn y setliad datganoli ac mae rôl Llywodraeth Cymru o ran darparu'n llwyddiannus wedi'i chysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth y DU. O ystyried eich cyfrifoldeb dros fuddiannau'r trysorlys mewn datganoli i Gymru, teimlwn bod gwerth y broses graffu wedi cael ei thanseilio gan eich diffyg ymgysylltu.

**Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant**

Yn dilyn Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU, a draddodwyd gan Ganghellor y Trysorlys ar 25 Tachwedd, ysgrifennom at Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ofyn am ddiweddariad brys ar effaith yr adolygiad o wariant yng Nghymru. Cawsom ymateb gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar 5 Rhagfyr 2020.

O ystyried arwyddocâd y cyhoeddiadau cyllido i Gymru, cynhaliom sesiwn dystiolaeth gyda Gweinidog Cyllid Llywodraeth Cymru ar 16 Rhagfyr 2020. Mae gan y Pwyllgor nifer o bryderon o hyd ac fe fyddem yn ddiolchgar am eich barn ar y canlynol:

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

**Diffyg yn y sector amaethyddol** – Mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei bod yn ymddangos bod cynigion y Canghellor ar gyfer cyllid yn lle cyllid Polisi Amaethyddol Cyffredin yr UE yn gadael ffermwyr a chymunedau gwledig Cymru £137 miliwn yn brin o'r cyllid disgwyliedig yn 2021-22. Mae hyn yn cynnwys cyllid trosglwyddo colofn 1 gwerth £42 miliwn yr oedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei dderbyn yn 2021-22. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi codi hyn gyda chi a'ch bod wedi cytuno i ysgrifennu ati gyda phenderfyniad ynghylch a all Llywodraeth Cymru adennill y cyllid o £42 miliwn gan y Trysorlys. Cytunodd y Gweinidog hefyd i rannu'r wybodaeth hon â'r Pwyllgor. Fodd bynnag, nid yw'r Pwyllgor yn cytuno y dylai'r cyllid o £95 miliwn sydd ar gael o dan daliadau Datblygu Gwledig 2014-2020 gael ei rwydo o gyllid 2021-22 sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU i gyflawni'r ymrwymiad ariannu.

**Cronfa Ffyniant Gyffredin** - Mae'r Adolygiad o Wariant yn nodi £220 miliwn o gyllid ychwanegol i helpu ardaloedd lleol i baratoi dros 2021-22 ar gyfer cyflwyno'r Gronfa, ac rydym yn cymryd bod hyn er mwyn cefnogi'r gwaith o dreialu rhaglenni a dulliau newydd. Rhoddodd y Gweinidog ffigur eglurhaol o £12 miliwn pe bai Cymru yn derbyn cyfran Barnett o'r £220 miliwn. Dywedodd y Gweinidog:

> "there's no suggestion or guarantee that we would have a Barnett share of it, and all of this, again, goes into the discussions as to the impact of the internal market Bill, what the programme will look like, whether it's something the Secretary of State will be involved in, something that the Welsh Government is carved out of."

Er ein bod yn cydnabod mai diben y £220 miliwn yw i gefnogi'r cynllun peilot, ar hyn o bryd mae Cymru yn cael £375 miliwn o Raglenni'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd, felly mae'n ymddangos bod yna ddiffyg sylweddol. Rydym yn gofyn am ymrwymiad o ran pryd y bydd cyllid i gyd-fynd â'r rhaglen hon yn cael ei gyhoeddi a sicrwydd gennych chi na fydd addewid Llywodraeth y DU na fydd Cymru 'geiniog yn waeth ei byd' ar ôl Brexit yn dal yn wir.

**Cyllid canlyniadol cyfalaf i Gymru** – Y newid yn ffactor cymaroldeb y Datganiad Cyllido mewn perthynas â chyfuno fformwlâu Network Rail a Thrafnidiaeth gan arwain at gymaroldeb gwariant trafnidiaeth yn gostwng o 80.9 y cant (trafnidiaeth yn unig) i 36.6 y cant, yn bennaf o ganlyniad i drin cyllid HS2. Dywedodd y Gweinidog y dylid cael:

> "comparability with rail infrastructure programmes, particularly in the light of the transfer of the core Valleys lines, and also, the fact that in the aggregate, HS2 provides no benefit to Wales; in fact, UK Government's own analysis suggests it could come at a cost to Wales of £150 million a year, and most of that will be felt in south-west Wales, when areas beyond Bridgend, Swansea and so on become less attractive to investors. So, all of these issues provide us with cause to believe that it's just inappropriate, really, to reduce the factor to 36.6 per cent."

## Ffigurau cyfalaf

Dywedodd y Gweinidog am y cynnydd o £60 miliwn mewn cyfalaf cyffredinol ochr yn ochr â gostyngiad o £191 miliwn mewn cyfalaf trafodion ariannol – gostyngiad o 5 y cant o flwyddyn i flwyddyn. Dangosodd Cyllideb Mawrth 2020 gynnydd o 19 y cant yng nghyfalaf cyffredinol y DU rhwng 2020-2021 – dywedodd y Gweinidog y dylai hyn fod wedi arwain at £400 miliwn ychwanegol i Gymru.

Ymhellach, cyfeiriodd y Gweinidog at y cymaroldeb â'r Adran Drafnidiaeth y soniwyd amdano uchod. Dywedodd y Gweinidog fod y newid i'r ffactor cymaroldeb trafnidiaeth yn arwain at gyfalaf sylweddol is o ganlyniad i'r grant bloc.

## Proses ar gyfer herio penderfyniadau

Rydym yn pryderu am y mecanwaith a ddefnyddir gan Lywodraeth y DU i wneud penderfyniadau cyllido a modd Llywodraeth Cymru i herio penderfyniadau o'r fath. Dywedodd y Gweinidog fod lefel yr ymgysylltu ar lefel weinidogol rhwng y Trysorlys a Llywodraeth Cymru o ran yr adolygiad o wariant wedi bod yn wael iawn.

Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor na fu unrhyw welliant o ran tryloywder dyraniadau cyllid Llywodraeth y DU a bod anawsterau gwirioneddol o ran cysoni'r cyllid a warentir gyda'r dyraniadau yn Lloegr. Clywsom fod Llywodraeth Cymru wedi cael darlun eang iawn o'r dyraniadau yn hytrach na gwybodaeth fanwl a oedd yn caniatáu iddi ddeall y cyllid canlyniadol y dylai Cymru ei gael.

Mae hyn yn siomedig iawn o ystyried ein bod ni wedi ysgrifennu yn ddiweddar at Ysgrifennydd Gwladol Cymru fel rhan o'n gwaith ar yr ymateb ariannol i Covid-19 i ofyn iddo am dryloywder mewn unrhyw gyhoeddiadau cyllido i Gymru yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi argymell o'r blaen yn ein hadroddiad ar Gyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2020-21 bod Llywodraeth Cymru yn mynnu bod Llywodraeth y DU yn darparu cymaint o wybodaeth mor brydlon â phosibl, ar unrhyw gyhoeddiad gan Lywodraeth y DU sy'n effeithio ar Gymru, ei thrigolion a/neu'r busnesau sy'n gweithredu yma [Argymhelliad 3].

Rydym yn deall mai Cyd-bwyllgor y Gweinidogion yw llwybr Llywodraeth Cymru i herio penderfyniad a wnaed gan Lywodraeth y DU. Mae'r Gweinidog yn credu nad yw hon yn broses foddhaol gan mai Llywodraeth y DU, yn ei hanfod, yw'r barnwr rheithgor ar y mater, yn ei geiriau hi. Rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru wedi nodi ei huchelgeisiau i gael cymrodeddwr mwy annibynnol ar gyfer yr anghytundebau hyn a gobeithiwn y bydd Llywodraeth y DU yn agored i drafodaethau o'r fath.

## Setliadau aml-flwyddyn / Hyblygrwydd diwedd blwyddyn

Er ein bod yn deall yr anawsterau wrth osod setliadau aml-flwyddyn yn yr amgylchiadau presennol, rydym yn siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi gorfod llunio cyllideb ddrafft gyda setliad refeniw blwyddyn yn unig am y tair blynedd diwethaf. Rydym hefyd yn siomedig bod rhai adrannau yn Lloegr eleni, fel iechyd ac addysg, wedi derbyn setliadau aml-flwyddyn eleni a byddem yn eich annog i sicrhau bod setliadau aml-flwyddyn ar gael ar gyfer y llywodraethau datganoledig y flwyddyn nesaf.

Yn ogystal, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch y pandemig, cred y Pwyllgor y byddai'n ddoeth i Lywodraeth Cymru gael rhagor o hyblygrwydd o ran rheoli ei chyllid diwedd blwyddyn, a byddem yn gwerthfawrogi eich barn ar y newid hwn yn enwedig o ystyried yr amgylchiadau eithriadol ar hyn o bryd.

Yn gywir,



Llyr Gruffydd AS

Cadeirydd

Copi: Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd

Y Gwir Anrhydeddus Simon Hart AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru